**Atodiad 2: Trosolwg Llwybrau Ymholi ac Adrodd i Aelodau**

| **Math o 'Bryder / Ymholiad'** | **e.e.** | **Trefn adrodd** |
|---|---|---|
| Datgelu Ymddygiad / Pryderon Difrifol neu Droseddol | Datgeliad ymddygiad troseddol yn unol a'r gofyn yn y Còd Ymddygiad; fyddai yn cynnwys llygredd, twyll a troseddau megis iechyd a diogelwch | Trefn newydd i'w gyflwyno i'r Cygnor Llawn ar 2 Gorffennaf 2026<br>Y Cyfansoddiad<br>(i'w adolygu ar ôl cyfarfod y Cyngor 02/07/2026)<br>Yn unol â'r Polisi Canu'r Gloch Aelodau (NEWYDD)<br>Adrodd i sylw y Swyddog Monitro neu yn unol a rhan 5.4-5.7 o'r Weithdrefn |
| Diogelu | Camdriniaeth corfforol, rhywiol, seicolegol, teimladol neu ariannol<br>Esgeuluso corfforol, rhywiol, seicolegol, teimladol neu ariannol | Yn unol â'r Polisi-Diogelu-Ionawr-2025-Cymraeg.pdf<br>Sef<br>Cysylltu â'r Heddlu (999) os oes plentyn neu oedolyn mewn perygl<br>Gysylltu gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd<br>Polisi-Diogelu-Ionawr-2025-Cymraeg.pdf |
| Cwyn am ymddygiad Aelod arall | Dwyn anfri ar y swydd a'r awdurdod, amharch, defnyddio swydd yn amhriodol, camddefnyddio adnoddau'r Awdurdod, torri cyfrinachedd, peidio tynnu sylw at achos o dorri'r côd. | Yn unol ag :<br>Adran-18---Cod-ymddygiad-aelodau.pdf<br>Adrodd i sylw y Swyddog Monitro |
| Twyll | Cynrychiolaeth ffug; methu datgelu gwybodaeth yn fwriadol neu dwyll dry gamddefnyddio swydd | Yn unol â'r Cod Ymddygiad a'r Strategaeth Gwrth-dwyll: Atodiad 1 - Strategaeth.pdf<br>Adrodd i sylw y Rheolwr Archwilio |

| | | |
|---|---|---|
| Cwyn am Swyddog / Prif Swyddog | Bod yn amharchus at aelod, anwybyddu gohebiaeth, torri cyfrinachedd neu weithredu yn groes i'r Protocol Aelodau a Swyddogion | Yn unol ag Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf<br>Adrodd i reolwr llinell y swyddog; trefniadau uchafu i'r Pennaeth Adran / Cyfarwyddwr os nad yw'n cael ei ddatrys. |
| Cwyn am y Prif Weithredwr / Swyddog Monitro | Ymddygiad sydd yn groes i'r Protocol Aelodau a Swyddogion, neu'n dorri o'r Cod Ymddygiad i Swyddogion. | Yn unol ag Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf |
| Cwyn am Wasanaeth ar ran etholwyr | Casgliadau gwastraff yn cael eu methu yn rheolaidd mewn ardal, oedi mewn | Yn unol â'r Polisi Pryderon a Chwynion Cyngor Gwynedd<br>Datrysiad Anffurfiol drwy adrodd i'r Rheolwr / Pennaeth Adran Perthnasol<br>Cyflwyno Cwyn Ffurfiol drwy'r pwynt cyswllt cwynion canolog – Galw Gwynedd, gwefan neu ebost cwynion. |
| Cais am wasanaeth ar ran etholwyr | Cais am fin newydd, cais am newid lamp stryd, adrodd ar dwll mewn lôn | Cais drwy unrhyw gyfrwng sy'n ddewisol i'r aelod ee E-bostio / ffonio'r gwasanaeth yn uniongyrchol, drwy Galw Gwynedd; drwy'r wefan gyhoeddus ; drwy Hunanwasanaeth aelodau. |
| Ymholiad cyffredinol / cais am wybodaeth am wasanaethau'r cyngor | Holi ar pa ddiwrnod mae'r bin yn cael ei gasglu, cyngor ar gais cynllunio, ceisiadau treth Cyngor | Cysylltu drwy Galw Gwynedd neu gysylltu yn uniongyrchol â'r gwasanaeth neu wybodaeth ar y wefan |